

Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Blaenau Gwent 2020

This document is available in English

Mae'r dogfen hon ar gael yn Saesneg

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Blaenau Gwent 2020 yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn a chyfoes ar gyfer deall anghenion llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o fewn y fwrdeistref sirol ar gyfer y cyfnod 2020–2033. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan Opinion Research Services (ORS) ar ran y cyngor ac mae'n ofynnol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n rhwymo awdurdodau lleol i asesu anghenion bob pum mlynedd.

Diben a Chyd-destun Polisi

Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn sicrhau bod Blaenau Gwent yn bodloni dyletswyddau statudol i wneud y canlynol:

- Nodi anghenion llety presennol a rhai'r dyfodol
- Cefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer 2018–2033
- Llywio polisi cynllunio teg a chynaliadwy sy'n cyd-fynd â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018

Mae'r asesiad yn cwmpasu:

- Sipsiwn a Theithwyr (gan gynnwys Roma, Teithwyr Gwyddelig, Sipsiwn Cymreig)
- Siewmyn Teithiol
- Aelwydydd sy'n byw ar safleoedd ac mewn tai brics a mortar

Methodoleg

- Sefydlwyd grŵp llywio prosiect, yn cynnwys swyddogion y cyngor a thrigolion safleoedd
- Cynhaliwyd ymgysylltiad helaeth, gan gynnwys llythyrau, posteri, cyfweliadau, ac allgymorth wedi'i dargedu
- Cwblhawyd 28 o gyfweliadau ag aelwydydd:
 - 17 ar safle cyhoeddus Cwmcrachen
 - 4 ar safleoedd preifat
 - 7 mewn tai brics a mortar
- Dadansoddwyd nifer o ffynonellau data: cyfrifiadau carafannau, cofnodion cynllunio, data demograffig, a data awdurdodau lleol

Darpariaeth Bresennol

Ar lefel sylfaenol 2020, roedd gan Flaenau Gwent:

- 1 safle preswyl cyhoeddus (Cwmcrachen) – 19 llain
- 2 safle preifat – 6 llain
- Dim safleoedd tramwy, safleoedd heb awdurdod, na iardiau Siewmyn

Ar adeg yr asesiad, nid oedd unrhyw leiniau gwag na disgwyl y byddai lleiniau gwag yn y tymor agos, ac nid oedd unrhyw leiniau newydd gyda chaniatâd cynllunio.

Canfyddiadau Allweddol

Amodau'r Llety

- Roedd 42% o drigolion yn anfodlon â'r llety presennol – yn bennaf y rhai ar safle Cwmcrachen.
- Prif bryderon: gorlenwi, lleiniau bach, parcio cyfyngedig, draeniad gwael, blociau amwynder wedi dyddio, problemau o ran cynnal a chadw'r safle.
- Teimlai 82% o drigolion Cwmcrachen fod angen ehangu'r safle.

Demograffeg

- Cynrychiolwyd 64 o unigolion ar draws yr aelwydydd a arolygwyd.
- Roedd 53% o'r boblogaeth yn 20 oed neu'n iau, sy'n awgrymu y bydd llawer o aelwydydd newydd yn y dyfodol.
- Nid oedd tystiolaeth o aelwydydd gorlawn neu wedi'u dyblu ar adeg yr asesiad.

Symudiad a Dyheadau

- Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn bwriadu aros lle maent.
- Dim ond un aelwyd oedd ar y rhestr aros ar gyfer y safle cyhoeddus.
- Disgwylid y byddai angen eu lleiniau eu hunain ar dri oedolyn ifanc o fewn y ddwy i bum mlynedd nesaf.

Anghenion ar gyfer Safleoedd Tramwy

- Ni chofnodwyd unrhyw wersylloedd heb awdurdod ers 2019.
- Mae rhai trigolion yn teithio i fannau eraill yn y DU ond nid yw hyn yn creu angen am safleoedd tramwy lleol.
- Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen safle tramwy ar hyn o bryd; argymhellwyd monitro parhaus.

Anghenion Llety (2020–2033)

Cyfnod Amser	Lleiniau Ychwanegol sy'n Ofynnol
Y 5 mlynedd cyntaf	3 llain
Blynyddoedd 6–13	5 llain
Cyfanswm yr Angen	8 llain

Nid oes angen lleiniau ar gyfer Siewmyn Teithiol ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

Argymhellion

1. Darparu wyth llain breswyl ychwanegol yn ystod cyfnod yr CDLI hyd at 2033.
2. Ystyried ehangu neu ddisodli safle Cwmcrachen, gan sicrhau:
 - Lleiniau mwy
 - Blociau amwynder modern
 - Parcio a drenio gwell
3. Parhau i fonitro am wersylloedd heb awdurdod ac ailystyried anghenion o ran safleoedd tramwy os bydd patrymau'n newid.
4. Defnyddio canfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i lywio:
 - Y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer 2018–2033
 - Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol
 - Y Strategaeth Dai Leol
5. Parhau i ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr wrth gynllunio darpariaeth yn y dyfodol.